**Diogelwch Batris**

Mae batris cymhorthion clyw yn beryglus iawn a phan gânt eu llyncu, gallant achosi llosgiadau difrifol yn yr oesoffagws neu farwolaeth o fewn 2 awr. Gall difrod difrifol hefyd ddigwydd pan fyddant yn mynd yn sownd yn y glust neu'r trwyn. Os bydd digwyddiad o'r fath yn digwydd, dilynwch y cyngor isod:

**Amheuaeth o Lyncu Batri – Beth i'w wneud?**

- Ceisiwch sylw ar unwaith yn yr Adran Argyfwng
- PEIDIWCH â gadael iddynt fwyta na yfed
- PEIDIWCH ag ysgogi chwydu
- Ewch â phecyn y batri gyda chi i'r ysbyty a'i ddangos i staff yr Ysbyty

**Sut i storio'r batris yn ddiogel?**

- Storiwch fatris newydd/sbâr yn eu pecyn mewn cynhwysydd wedi'i selio.
- Gwnewch yn siŵr bod y batris yn cael eu cadw allan o olwg a chyrhaeddiad plant ac oedolion agored i niwed.
- Gwnewch yn siŵr, pan fyddwch chi'n agor y pecyn batri, nad ydych chi'n gollwng unrhyw fatris ar y llawr.
- Cadwch unrhyw fatris hen/wedi'u defnyddio allan o gyrraedd plant neu oedolion agored i niwed ar unwaith.
  - Nodyn: Mae'n arfer da storio hen fatris yn y pecyn gwreiddiol gan ei fod yn sicrhau nad oes unrhyw hen fatris ar goll.
- Ailgylchwch fatris yn ddiogel a chyn gynted â phosibl. Mae llawer o gynghorau lleol yn cynnig cynlluniau ailgylchu ar gyfer batris neu gallwch eu dychwelyd i'r adran awdioleg.
- Gwnewch yn siŵr nad yw batris yn cyffwrdd â'i gilydd wrth eu storio gan y gall hyn fod yn berygl tân.
- **Peidiwch byth** â storio batris gyda meddyginiaethau, gan y gellir eu camgymryd am bilsenni.

**Cadw eich plentyn ifanc/oedolyn agored i niwed yn ddiogel**

- Gallwch ofyn am glo batri sy'n ddiogel rhag plant ar y cymhorthion clyw, yn enwedig os yw'r claf o dan 5 oed neu'n byw gyda rhywun â ffactorau risg ychwanegol
- Pan nad yw cymhorthion clyw yn cael eu defnyddio, cadwch nhw allan o olwg a chyrhaeddiad plant ifanc/oedolion agored i niwed
- Newidiwch y batris allan o olwg eich plentyn, gan ei bod yn fwy diogel iddynt beidio â gwybod bod y batri yn agor
- Dysgwch blant hŷn fod batris cymhorthion clyw yn beryglus ac na ddylid byth chwarae â nhw na'u rhoi i'w brodyr a'u chwiorydd iau